Lefelau 4–5

Adnoddau

- Taflen Ymholiad – Ffermydd gwynt
- papurau newydd
- mynediad i'r Rhyngrwyd

Cysylltiadau â sgiliau yn y Rhaglen Astudio Gwyddoniaeth

Yn y gweithgaredd hwn mae angen i'r disgyblion gynhyrchu dadleuon o blaid ac yn erbyn gosodiad. Bydd disgwyl i ystyriaethau ynglŷn ag achos ac effaith ddylanwadu ar resymu'r disgyblion, a byddant yn defnyddio peth gwybodaeth flaenorol ac ychwanegol a gafwyd o ffynonellau eilaidd. Bydd trafodaeth â chyfoedion yn hwyluso myfyrio ar y meini prawf a ddetholwyd, er mwyn mynegi barnau.

Ffermydd gwynt

Golwg cyffredinol

Mae'r gweithgaredd hwn yn gwahodd disgyblion i feddwl am y defnydd o ffermydd gwynt i gynhyrchu egni a'u heffaith ar yr amgylchedd lleol o'r persbectif lleol yn ogystal ag o'r persbectif cenedlaethol.

Gweithgaredd

Trafodwch â'r disgyblion y ffaith fod ffermydd gwynt yn cael eu hadeiladu mewn rhannau o Gymru i ddarparu egni. Eglurwch fod rhai pobl o blaid ac eraill yn erbyn eu hadeiladu. Trefnwch i hanner nifer y disgyblion yn y dosbarth ysgrifennu rhesymau o blaid ffermydd gwynt ac i weddill y disgyblion ysgrifennu rhesymau yn erbyn ffermydd gwynt. Fe fydden nhw'n gallu defnyddio'r Rhyngrwyd neu bapurau newydd i ddarganfod tystiolaeth a gwybodaeth. Wedyn, defnyddiwch fformat 'cyfarfod cyflym'* i ddisgyblion 'gasglu' rhesymau o blaid a rhesymau yn erbyn adeiladu ffermydd gwynt i ddarparu egni i bobl yng Nghymru. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried gwerth y rhesymau 'o blaid' ac 'yn erbyn' ffermydd gwynt a chofnodi'r tri rheswm cryfaf o'u plaid a'r tri rheswm cryfaf yn eu herbyn, yn eu barn nhw, ar y Daflen Ymholiad.

Cwestiynau a awgrymir

Pa resymau y gallwch chi feddwl amdanyn nhw yn erbyn ffermydd gwynt?
Pa resymau y gallwch chi feddwl amdanyn nhw o blaid ffermydd gwynt?
Ym mhle fyddech chi'n darganfod gwybodaeth fyddai'n ddefnyddiol?

Gweithgareddau atodol

Cyd-destun arall y gellir ei ddefnyddio i greu dadleuon 'o blaid' ac 'yn erbyn' yw gosod mastiau ffonau symudol mewn pentrefi ac ar diroedd ysgolion.
Gallai'r disgyblion ddarganfod gwybodaeth am adnoddau naturiol eraill yng Nghymru y gellid eu defnyddio i ddarparu egni.

** Cyfarfod cyflym: Fformat trafodaeth sy'n annog disgyblion i gyfleu eu syniadau'n gryno, drwy roi un munud yn unig iddyn nhw gyflwyno'u syniad i bartner.*

rhesymau cryfaf
O BLAID ffermydd gwynt

rhesymau cryfaf
YN ERBYN ffermydd gwynt

adeiladu ffermydd gwynt i ddarparu egni i bobl yng Nghymru.